



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd
Addysgu Powys
Powys Teaching
Health Board



Cynllun Integredig 2023 – 2026

Fersiwn Bob Dydd

Cyflwyniad

Rydym yn falch o gyflwyno fersiwn bob dydd o Gynllun Integredig Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar gyfer y cyfnod 2023 i 2026.

Mae'r cynllun yn cyfuno'r ystod o gyfrifoldeb sydd gan y Bwrdd Iechyd o ran cynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer ei drigolion.

2023 yw'r pwynt hanner ffordd yn ein Strategaeth Iechyd a Gofal leol 'Powys Iach a Gofalgar' a 75 mlynedd ers geni'r GIG. Mae fframwaith strategol cryf yn allweddol i'n cynllun, gan fod y Bwrdd Iechyd yn ddarparwr ac yn gomisiynydd gofal iechyd ar gyfer poblogaeth Powys sy'n cyrchu gwasanaethau yng Nghymru a Lloegr.

Mae cysylltiad cryf rhwng 'Powys Iach a Gofalgar', y strategaeth iechyd a gofal ym Mhowys a'r uchelgais ar gyfer 'Cymru Iachach' a nodir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun hwn yn gweithredu 'dull system gyfan', gan adeiladu ar ein hanes cryf o weithio gyda phartneriaid i ddiwallu anghenion trigolion Powys.

Mae hefyd yn ymateb i'r heriau a wynebwyd dros y blynyddoedd diwethaf a'r effeithiau y byddant yn parhau i'w cael wrth symud ymlaen. Yn arbennig, effaith y pandemig ar les a darpariaeth gofal iechyd, ond hefyd anawsterau economaidd-gymdeithasol ehangach sy'n codi'n fyd-eang ac effeithio'n lleol, gan gynnwys cynnydd yng nghostau byw ein poblogaeth.

O ystyried yr heriau, nid yw'r bwrdd iechyd wedi gallu cyflwyno cynllun sy'n ariannol gytbwys ar gyfer y flwyddyn i ddod, ond yn hytrach mae wedi nodi nifer o flaenoriaethau strategol, i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n barhaus ac yn ymateb i Flaenoriaethau Gweinidogol.

Mae ffocws o'r newydd ar wella gwerth a dal i fyny ar ofal sydd wedi ei ohirio oherwydd y pandemig; tra hefyd yn cyflymu gwaith ar fodel gofal cynaliadwy. Mae hwn yn waith cymhleth a fydd yn para dros gyfnod y cynllun hwn a thu hwnt.

Cynllun y bwrdd iechyd yw hwn ond mae'n cydnabod y cydweithio a'r gwaith tîm sy'n rhan o ddarparu gofal iechyd ym Mhowys, yn amrywio o'r trydydd sector, i gontractwyr gofal sylfaenol a chydweithwyr gofal cymdeithasol, yn ogystal â'r gofal aciwt ac arbenigol a ddarperir gan sefydliadau eraill ledled Cymru a dros y ffin yn Lloegr.

- Mae'r fersiwn gryno hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg a gellir darparu fformatau eraill ar gais.
- Mae'r fersiwn lawn o'r cynllun ar gael ar wefan y bwrdd iechyd yn Gymraeg a Saesneg.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Thîm Cynllunio BIAP dros e-bost yn: planning.powys@wales.nhs.uk




Bwrdd Iechyd
Addysgu Powys
Powys Teaching
Health Board

Cynllun ar dudalen 2023 > 24

EM GWELLIGAETH AR GYFER Y DYFODOL
CWMYNDROD A'R ANGYLCHODDOLDEBIAU AC AR DOR AR ANGLYCHODDOL
GWELLA IECHYD
A LLES
ARWEITHIYDD YM MAES IECHYD A GOFAL GWELLIG INTEGRIG

HYD
2027
A THU
HWYT...




1. Gwella iechyd y boblogaeth gan gynnwys anghydraddoldebau iechyd
2. Diogelu iechyd gan gynnwys brechu
3. Diogelu iechyd – Atal a Rheoli Haint



4. Gofal Sylfaenol
*Blaenoriaethau Gweinidogol
5. Diagnosteg
*Blaenoriaethau Gweinidogol
6. Gofal Ar Yr Un Diwrnod
7. Gofal wedi'i Gynllunio
*Blaenoriaethau Gweinidogol



8. Canser
*Blaenoriaethau Gweinidogol
9. Cylchrediad
10. Anadlol
11. Iechyd Meddwl
*Blaenoriaethau Gweinidogol




12. Model Eiddilwch a Chymunedol
*Blaenoriaethau Gweinidogol ynghylch Oedi wrth Drosglwyddo Gofal
13. Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng
*Blaenoriaethau Gweinidogol
14. Gofal Arbenigol

Amcanion Lles:
gosod y bont i'r uchelgais tymor canolig a hirdymor

Blaenoriaethau Strategol y Flwyddyn:
(ymgorffori Blaenoriaethau Gweinidogol)

Amcanion Galluogi i gefnogi darpariaeth y Blaenoriaethau Strategol



- Trawsnewid a chynaliadwydd ein gweithlu
 - Lle gwyh i weithio
 - Iechyd a lles y gweithiwr
- Rhaglenni dyfodol y gweithlu ar y cyd

- Fframwaith digidol strategol
- Gweithredu systemau clinigol digidol
- Seilwaith seiber sy'n gryf a diogel
- Rheoli a digideiddio dogfennau electronig
- Moderneiddio pensaernïaeth data a deallusrwydd busnes

- Rhaglen gyfalaf ac ystadau
- Rheolaeth amgylcheddol a datgarboneiddio

- Llywodraethu
- Llywodraethu Ansawdd
- Ymgysylltu a Chyfathrebu
- Comisiynu a Pherfformiad Strategol
- Cynllunio Strategol
- Arloesi a Gwella
- Cydraddoldebau Strategol a'r Gymraeg

Blaenoriaethau Galluogi 2023-2026

Mae Ansawdd a Gwerth (Diogelwch Cleifion, Canlyniadau a Phrofiad) yn sylfaen ar draws y cynllun cyfan

Egwyddorion Arweiniol



Gwneud Beth sy'n Bwysig

Fe fyddwn ni'n canolbwyntio ar 'Beth Sy'n Bwysig' i bobl. Fe fyddwn ni'n cydweithio i gynllunio gofal a chymorth wedi'i bersonoli, gan ganolbwyntio ar y canlyniadau sy'n bwysig i'r unigolyn.



Gwneud Beth sy'n Gweithio

Fe fyddwn ni'n darparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar 'beth sy'n gweithio', ar sail tystiolaeth, gwerthusiad ac adborth. Fe fyddwn ni'n cael sgrysiâu gonest ynglŷn â sut rydyn ni'n defnyddio adnoddau.




Canolbwyntio ar yr Angen Mwyaf

Fe fyddwn ni'n canolbwyntio adnoddau ar y rheiny sydd â'r angen mwyaf am help a chefnogaeth, mewn ffordd sy'n ystyried cenedlaethau'r dyfodol.




Cynnig Mynediad Teg

Fe fyddwn ni'n sicrhau bod gofal arbenigol a thriniaethau a thechnolegau newydd o fewn cyrraedd teg, gan helpu i gyflawni Powys fwy cyfartal a chydabod heriau gwledig.



Bod yn Ddarbodus

Fe fyddwn ni'n defnyddio adnoddau cyhoeddus yn ddoeth fel bod gwasanaethau iechyd a gofal dim ond yn gwneud y pethau mai dim ond y nhw sy'n gallu eu gwneud, gan gefnogi pobl i fod yn bartneriaid cyfartal a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu hiechyd a'u gofal.



Gweithio gyda Phobl a Chymunedau

Fe fyddwn ni'n gweithio gydag unigolion a chymunedau i ddefnyddio'u holl gryfderau mewn ffordd sy'n sicrhau'r iechyd a'r gofal gorau posibl i bawb, gan ganolbwyntio ar bob cam o fywyd — Dechrau Da, Byw'n Dda a Heneiddio'n Dda.



CANOLBWYNTIO AR LES

Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar y gwaith o wella iechyd y boblogaeth a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, a fydd yn galluogi plant a phobl ifanc i 'ddechrau'n dda', oedolion i 'fyw'n dda' a phobl hŷn i 'heneiddio'n dda'.

Ffocws ar les yw'r sylfaen hanfodol ar gyfer Powys Iach a Gofalgar, sef yr uchelgais tymor hir a nodwyd pum mlynedd yn ôl yn Strategaeth Iechyd a Gofal Powys. Mae'n cyflawni'r uchelgais a nodir yn 'Cymru Iachach' ar gyfer rhanbarth Powys. Mae hyn yn parhau i fod yn rym gweithredu, ar ôl cael ei adolygu a'i adnewyddu, i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol mewn cyd-destun sydd wedi newid llawer.

Blaenoriaethau Strategol

- Gwellu iechyd y boblogaeth gan gynnwys anghydraddoldebau iechyd
- Diogelu Iechyd gan gynnwys brechu
- Diogelu Iechyd - Atal a Rheoli Heintiau

Canlyniadau Powys

- Rydw i'n gyfrifol dros fy iechyd a lles i
- Rydw i'n gallu byw bywyd llawn
- Rydw i'n gallu, ac yn cael fy nghefnogi i wneud penderfyniadau ffordd iach o fyw ar fy iechyd meddwl a chorfforol, a lles, i fy hun a fy rheulu.
- Mae gen i gyfleoedd bywyd, ni waeth pwy ydw i a ble rydw i'n byw ym Mhowys.
- Mae fy amgylchedd/cymuned yn fy nghefnogi i fod yn gysylltiedig a chynnal iechyd a lles da
- Fel gofalwr, rydw i'n gallu byw bywyd llawn a theimlo fy mod yn cael fy nghefnogi

Meysydd Allweddol o Gyflenwi

Gwellu iechyd y boblogaeth gan gynnwys anghydraddoldebau iechyd


- Darparu rhaglenni gwella iechyd ar lefel poblogaeth dan arweiniad y bwrdd iechyd (gan gynnwys adfer darpariaeth yn dilyn y pandemig):
 - Rhaglen Plant Iach Cymru
 - Cynllun Gwên
 - Atal ysmygu mewn ysgolion
- Cyflwyno rhaglen Braenaru Integreiddio'r Blynnyddoedd Cynnar (Rhaglen Dechrau Da y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol)
 - Cyflwyno rhaglen NYTH/NEST (Rhaglen Dechrau Da y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol)
 - Cyflwyno rhaglen Dull System Gyfan at Bwysau Iach
 - Hyrwyddo'r defnydd o raglenni imiwneiddio a sgrinio

Diogelu Iechyd gan gynnwys brechu

- Cyflwyno model diwygiedig o Frechu Torfol gan gynnwys gweithredu'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol yn lleol
- Cyflwyno elfen leol o ymateb Diogelu Iechyd sy'n cyd-fynd â'r Adolygiad Diogelu Iechyd Cenedlaethol gan gynnwys
 - Clefyd trosglwyddadwy
 - Cynnydd yn achosion cymunedol o glefydau heintus
 - Argyfyngau iechyd y cyhoedd
 - Profi ac Orlhain
 - Brech y mwncïod
 - Gweithredu yn ymwneud â ffoaduriaid yn unol â chanllawiau diogelu iechyd cenedlaethol
- Hyrwyddo'r nifer sy'n manteisio ar raglenni sgrinio cancer cenedlaethol

Diogelu Iechyd: Atal a Rheoli Heintiau

- Sicrhau gwelliannau mewn Atal a Rheoli Heintiau, gan adeiladu ar, a chryfhau dysgu o bandemig Covid-19 a thu hwnt



HELP A CHEFNOGAETH GYNNAR

Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar gymorth a chefnogaeth gynnar trwy'r gwasanaethau hynny sy'n bwynt cyswllt cyntaf, lle mae diagnosteg amserol a gofal cydgysylltiedig yn cael yr effaith fwyaf ar lesiant.

Mae Cymorth a Chefnogaeth Gynnar wedi parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol, gyda'i bwysigrwydd yn cael ei ailadrodd yn y negeseuon a glywir o ymgysylltu parhaus â'n poblogaeth a'n partneriaid.

Blaenoriaethau Strategol

- Gofal Sylfaenol
- Diagnosteg
- Osgoi Derbyniadau
- Gofal wedi'i Gynllunio

Canlyniadau Powys

- Gallaf gael gafael yn hawdd ar wybodaeth, cyngor a chefnogaeth i barhau'n actif ac annibynnol
- Fel plentyn a pherson ifanc, mae gen i'r cyfle i brofi'r dechrau gorau mewn bywyd
- Mae gen i fynediad, cyngor a chefnogaeth hawdd i'm helpu i fyw'n dda gyda fy nghyflwr cronig

Meysydd Allweddol o Gyflenwi

Gofal Sylfaenol

Blaenoriaeth
Weinidogol

- Gwell mynediad at wasanaethau Meddygon Teulu a Chymunedol
- Gwell ddefnydd o Fferylliaeth Gymunedol
- Gwell ddefnydd o Optometreg
- Mynediad uwch at Wasanaethau Deintyddol

Diagnosteg

Blaenoriaeth
Weinidogol

- Mynediad i gapasiti diagnosteg rhanbarthol ychwanegol
- Gweithredu Endosgopi Trwy'r Drwyn
- Gweithredu cam nesaf Cardioleg Cymunedol
- Gweithredu Dermatoleg
- Mynediad cyflawn i Glinigau Diagnostig Cyflym
- Model Syth i Brofi
- Gweithredu Llwyfan Rhannu Delwedd Rhanbarthol ac adolygiad cyfalaf o offer diagnosteg

Osgoi Derbyniadau

- Cynllun graddol ar gyfer osgoi derbyniadau ym Mhowys

Gofal wedi'i Gynllunio

Blaenoriaeth
Weinidogol

- Gwelliannau yn unol ag adolygiadau GIRFT
- Cryfhau seilwaith a llywodraethu
- Trawsnewidiad cleifion allanol
- Mynediad i gapasiti rhanbarthol ychwanegol
- Gwella gwerth mewn arbenigeddau allweddol
- Sicrwydd Mamolaeth a Gwelliannau Diogelwch
- Gwella Iechyd Menywod ac Iechyd Rhywiol
- Ailfodelu Paediatrig gan gynnwys Therapiau



MYND I'R AFAEL Â'R PEDWAR MAWR

Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar sut mae'r ymateb i'r pedwar prif achos o salwch, baich afiechydon a marwolaethau cynamserol ym Mhowys.

Mae'r Strategaeth Iechyd a Gofal, 'Powys Iach a Gofalgar' yn nodi pedwar penderfynydd iechyd allweddol ym Mhowys. Mae'r rhain yn parhau i fod yn yrwyr pwysig i iechyd a lles y boblogaeth heddiw, sef canser, clefyd cylchredol ac anadlol ac iechyd meddwl. Yn ogystal â bod yn flaenoriaethau mawr yn unigol, mae cydberthnasau pwysig ar draws y Pedwar Mawr.

Blaenoriaethau Strategol

- Canser
- Clefyd Cylchredol
- Anadlol
- Iechyd Meddwl

Canlyniadau Powys

- Gallaf gael gafael yn hawdd ar wybodaeth, cyngor a chefnogaeth i barhau'n actif ac annibynnol
- Fel plentyn a pherson ifanc, mae gen i'r cyfle i brofi'r dechrau gorau mewn bywyd
- Mae gen i fynediad, cyngor a chefnogaeth hawdd i'm helpu i fyw'n dda gyda fy nghyflwr cronig

Meysydd Allweddol o Gyflenwi

Canser

- Cyflawni Gwelliannau Canser (yn unol â Chynllun Gwella Canser GIG Cymru)
- Clinigau Diagnostig Cyflym
- Cyflawni Mentrau Allweddol i wella mynediad
- Olrhain canser
- Datganiad Ansawdd a Llwybrau gorau

Cylchredol

- Datganiadau Ansawdd a Llwybrau ar gyfer Strôc, Diabetes a Chardioleg
- Cardioleg gan gynnwys cardioleg cymunedol ac adsefydlu
- Gofal sylfaenol gan gynnwys ffibriliad atrïaidd, gofal a thriniaeth ar gyfer diabetes
- Strôc gan gynnwys newid strategol system gyfan


Anadlol

- Gweithredu Datganiad Ansawdd Anadlol
- Defnyddio cynlluniau asthma ar gyfer plant a phobl ifanc

Iechyd Meddwl

- Trawsnewid Gwasanaeth Iechyd Meddwl
- Gweithredu 111 Pwyso 2
- Dylunio a datblygu llwybrau
- CAMHS (Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc)

Blaenoriaeth
Weinidogol



GOFAL CYDGYSSYLLTIEDIG

Mae'r amcan hwn yn cynnwys cyflawni'r Model Gofal Cynaliadwy Carlam, i feithrin gwydnwch a sicrhau gofal effeithiol a llwybrau ymlaen ar gyfer Gofal Arbenigol.

Daeth yr uchelgais ar gyfer Gofal Cydgyssylltiedig i'r amlwg trwy ymgysylltu â chymunedau fel rhan o'r strategaeth Iechyd a Gofal ac mae'n parhau i fod yn gonglfaen i'n gweledigaeth hirdymor ar gyfer Powys Iach a Gofalgar. Yng nghyd-destun y pandemig, mae hyn yn bwysicach nag erioed, gan na fydd dulliau traddodiadol yn mynd i'r afael â'r heriau a wynebir ar hyn o bryd yn llwyddiannus.

Blaenoriaethau Strategol

- Model Eiddilwch a Chymunedol
- Gofal Brys ac mewn Argyfwng
- Gofal Arbenigol

Canlyniadau Powys

- Mae gen i fynediad amserol at wasanaethau teg mor lleol â phosib
- Rwy'n cael fy nhrin fel unigolyn ag urddas a pharch
- Mae fy ngofal a fy nghymorth yn canolbwyntio ar beth sydd bwysicaf i mi
- Rwy'n derbyn parhad gofal sydd yn ddiogel ac yn cwrdd â'm hanghenion
- Rwy'n ddiogel ac yn cael fy nghefnogi i fyw bywyd bodlon
- Rwy'n derbyn gofal diwedd oes sy'n parchu'r hyn sy'n bwysig i mi

Meysydd Allweddol o Gyflenwi

Model Eiddilwch a Chymunedol

Blaenoriaeth
Weinidogol

- Dylunio a Darparu Model Cynaliadwy Carlam
 - Cyd-fynd â dull y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol tuag at Gymunedau Gofal Integredig a Chynlluniau Clwstwr)
 - Gan ystyried datblygiadau cenedlaethol h.y. 'Ymhellach yn Gyflymach'
- Gwellu llwybrau ac ymyriadau allweddol (gan gynnwys Eiddilwch a Chwympiadau a chamau i leihau hyd arhosiad ac oedi wrth drosglwyddo)

Gofal Brys ac mewn Argyfwng

Blaenoriaeth
Weinidogol

- Darparu dewisiadau amgen i ofal brys ac argyfwng (o fewn model gofal brys BIAP yn y gymuned)
- Cyflawni Cynllun Gweithredu Comisiynu Integredig ar y Cyd gyda Gwasanaethau Ambiwylans Cymru C1 - C4 a Chynllun Uwchgyfeirio Cyflym

Gofal Arbenigol

- Gweithredu ar y cyd drwy Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i wella gwerth gan gynnwys gwelliannau ar lwybrau y cytunwyd arnynt; rheoli rhyngwynebau cymhleth gyda chomisiynwyr a darparwyr yn Lloegr.
- Mynediad teg gan gynnwys asesu amrywiad diangen ar gyfer poblogaeth Powys.



DYFODOL Y GWEITHLU

Mae'r amcan hwn yn nodi sut y bydd cynllunio'r gweithlu a datblygu sefydliadol yn cefnogi ac yn galluogi cyflawni blaenoriaethau strategol.

Mae'n allweddol i drawsnewid, arloesi, integreiddio, a chreu modelu newydd o weithio ar y cyd â modelau gofal newydd. Mae'n hanfodol ein bod yn ymwybodol o amcanestyniadau y gweithlu cenedlaethol a lleol i lywio ein cynlluniau, profiad a darpariaeth, er mwyn i ni weithio gyda'n gilydd i adeiladu modelau mwy cynaliadwy a manteisio ar y cyfleoedd i drawsnewid.

Blaenoriaethau Strategol

- Trawsnewid a Chynnal Ein Gweithlu
- Lle Gwych i Weithio
- Iechyd a Lles y Gweithiwr
- Rhaglen Dyfodol y Gweithlu ar y cyd

Canlyniadau Powys

- Mae'r rhai sydd eu hangen arnaf i fy nghefnogi yn gallu gwneud penderfyniadau ac ymateb, oherwydd eu bod yn hyddysg ac yn gymwys, os nad ydyn nhw'n gallu fy helpu'n uniongyrchol, maen nhw'n gwybod pwy sy'n gallu.
- Fel gofalwr, rydw i a'r rhai rwy'n gofalu amdanynt yn rhan o'r 'tim'
- Gallaf fanteisio ar gyfleoedd addysg, hyfforddiant a datblygu ym Mhowys sy'n fy ngalluogi i sicrhau a datblygu fy sgiliau a'm cyfleoedd
- Rwy'n cael fy ngalluogi i ddarparu gwasanaethau'n ddigidol lle bo hynny'n briodol
- Rwy'n ymgysylltu ac yn fodlon ar fy ngwaith

Meysydd Allweddol o Gyflenwi

Trawsnewid a Chynnal Ein Gweithlu

- Cynllunio'r Gweithlu
- Ailgynllunio Recriwtio
- Gostyngiad Cyflog Amrywiol
- Addysg a Datblygiad Swyddi

Lle Gwych i Weithio

- Gwiriadau Tymheredd a Dadansoddi Galluogrwydd
- Datblygu Arweinyddiaeth
- Datblygiad Proffesiynol
- Cymorth i Weithwyr

Iechyd a Lles y Gweithiwr

- Safon Iechyd Corfforaethol Aur
- Sioeau Teithiol Lles a Digwyddiadau Eraill
- Iechyd Galwedigaethol
- Rhaglen Gymorth i Weithwyr
- Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth
- Mentora

Rhaglen Dyfodol Y Gweithlu Ar y Cyd

- Dylunio, Cynllunio a Denu'r Gweithlu
- Arwain y Gweithlu
- Ymgysylltu a Lles
- Addysg, Hyfforddiant a Datblygu
- Partneriaeth a Dinasyddiaeth



DIGIDOL YN GYNTAF

Bydd Digidol yn Gyntaf yn cael ei ddatblygu'n Fframwaith Strategol i alluogi gwell gofal drwy systemau digidol a seilwaith digidol cadarn a diogel.

Mae cyfleoedd i ddarparu gwell gofal i'r boblogaeth drwy wneud y gorau o'r defnydd o dechnoleg ddigidol, cyflawni sawl nod, gan gynnwys yr uchelgais i ddarparu mwy o ofal yn nes at adref, gan gefnogi datblygiad model gofal hyblyg, cynaliadwy.

Blaenoriaethau Strategol

- Fframweithiau Strategol Digidol
- Gweithredu systemau clinigol digidol
- Seilwaith gwydn, seiber ddiogel
- Rheoli a digideiddio dogfennau electronig
- Moderneiddio pensaernïaeth data a deallusrwydd busnes

Canlyniadau Powys

- Rwy'n gallu darganfod a gwneud yr hyn sydd ei angen arnaf ar-lein, fel gwneud neu newid apwyntiadau, talu fy miliau, hunanasesu neu gyrraedd meddyg neu ymgynghorydd heb orfod teithio
- Rwy'n cael fy helpu i ddefnyddio technoleg a chael mynediad at adnoddau i fy ngalluogi i fod yn annibynnol yn ddigidol

Meysydd Allweddol o Gyflenwi

Fframweithiau Strategol Digidol

- Pam, Beth, Pryd a Sut rydyn ni'n darparu gwasanaethau Digidol
- Gwellu canlyniadau i staff a chleifion, dan arweiniad clinigol ac yn cadw'r claf wrth wraidd.

Gweithredu systemau clinigol digidol

- Galluogi gwell gofal, gan gynnwys rhannu cofnodion clinigol trawsffiniol, datblygiadau mewn meysydd blaenoriaeth gwasanaethau clinigol a theleofal
- Gweithredu Llwybrau Iechyd

Seilwaith gwydn, seiber ddiogel

- Darparu seilwaith cadarn, seiber ddiogel o fewn adeiladau BIAP

Rheoli a Digideiddio Dogfennau Electronig

- Polisiâu a phrosesau rheoli ar ddogfennau electronig
- Digideiddio cofnodion papur

Moderneiddio Pensaernïaeth Data a Deallusrwydd Busnes

- Darparu pensaernïaeth ddata fodern a gwell deallusrwydd a gwybodaeth busnes ar gyfer gwneud penderfyniadau gwybodus.
- Ffynhonnell sengl y gwir, gwella ansawdd data



AMGYLCHEDDAU ARLOESOL

Mae'r amcan hwn yn nodi cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer lleihau carbon, bioamrywiaeth, gwelliannau i'r amgylchedd ac ystadau, sy'n gwella gofal, profiad a lles.

Mae gan y bwrdd iechyd heriau sylweddol, gan ei fod â'r ystâd adeiledig hynaf yng Nghymru, yn ogystal â'r ystâd 'leiaf newydd'. Felly, mae angen deall yr uchelgais ar gyfer amgylcheddau arloesol mewn cyd-destun deinamig a newidiol, gan gynnal a thrawsnewid yr amgylcheddau, i gefnogi gwaith ar fodel gofal cynaliadwy cyflym.

Blaenoriaethau Strategol

- Rhaglen Cyfalaf ac Ystadau
- Rheoli'r Amgylchedd a Datgarboneiddio

Canlyniadau Powys

- Rwy'n rhan o gymuned ffyniannus sy'n meddu ar ystod o gyfleoedd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, digwyddiadau cymdeithasol a mynediad at wasanaethau cyngor ac arweiniad i gefnogi fy lles
- Mae gen i fynediad at Ganolfan Ranbarthol Wledig sy'n darparu siopau un stop iechyd a gofal sy'n lleihau teithio diangen allan o'r sir.

Meysydd Allweddol o Gyflenwi

Rhaglen Cyfalaf ac Ystadau

- Darparu rhaglenni cyfalaf gan gynnwys:
 - Cam 2 Canolfan Wledig Ranbarthol Llandrindod
 - Gweithrediad Ysbyty Cymunedol Bro Dyfi
- Cyflwyno Strategaeth Ystadau gan gynnwys cynlluniau cydymffurfio brys
- Datblygu a Chyflenwi Cynllun Cyfalaf Amgylcheddau Arloesol RPB
- Gweithredu Rheoli Cyfleusterau 'Meddal'

Rheolaeth amgylcheddol a datgarboneiddio

- Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio sy'n ystyried y Cynllun Cenedlaethol
- Cyflawni camau tuag at yr Uchelgais i fod yn Sero Net erbyn 2030
- Cyflwyno rhaglen Llythrennedd Carbon ar draws y sefydliad
- Gwella a diogelu bioamrywiaeth yn unol ag adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru)

TRAWSNEWID MEWN PARTNERIAETH



Mae'r amcan hwn yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd mewn partneriaeth ledled Powys fel rhanbarth yn ei rhinwedd ei hun, yn ogystal â rhanbarth ehangach Canolbarth Cymru ac yn genedlaethol, yng Nghymru a dros y ffin yn Lloegr.

Mae heriau o'n blaenau, mae effeithiau'r pandemig yn parhau i gael eu teimlo ac yn cael eu dwysáu gan gymhlethdodau strwythurol a demograffig eraill fel cynnydd mewn costau byw a hinsawdd economaidd heriol. Mae'r rhain yn gofyn am ffyrdd newydd o weithio, meithrin perthnasoedd a chydweithio i wella iechyd y boblogaeth.

Blaenoriaethau Strataegol

- Llywodraethu a Llywodraethu Ansawdd
- Ymgysylltu a Chyfathrebu
- Comisiynu, Perfformiad a Chynllunio Strategol
- Arloesi a Gwella
- Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Canlyniadau Powys

- Fel preswlydd ym Mhowys rwy'n 'adrodd fy stori' unwaith ac rwy'n hyderus bod y rhai sy'n gofalu amdanaf yn cydweithio er fy lles
- Mae'r gwasanaethau rwy'n eu derbyn yn cael eu cydlynu ac yn ddi-dor
- Rwy'n gallu cael mynediad at adeiladau ac adnoddau a rennir at sawl diben, gan sawl sefydliad
- Mae fy nghymuned yn gallu gwneud mwy i gefnogi iechyd a lles

Meysydd Allweddol o Gyflenwi

Llywodraethu

- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
- Gwyliadwriaeth gadarn o risg strategol
- Adolygu Strwythur Cyngori'r Bwrdd

Llywodraethu Ansawdd

- Gweithredu Dyletswydd Ansawdd a Dyletswydd Gonestrwydd yn unol â'r Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu

Ymgysylltu a Chyfathrebu

- Rhaglen farchnata a chyfathrebu flynyddol
- Ymgysylltu a chyfathrebu effeithiol i gefnogi blaenoriaethau sefydliadol a mewnwelediad strategol

Perfformiad a Chynllunio Strategol

- Cyflwyno Swyddogaeth Comisiynu Strategol
- Datblygu Perfformiad Integredig

Cynllunio Strategol

- Cyflawni cylch blynyddol o Gynllunio Strategol gan gynnwys y Cynllun Integredig

Arloesi a Gwella

- Cyflawni Archwiliad ac Asesiad Clinigol
- Datblygu Ysgol o Arloesedd Ymchwil a Gweithgarwch Gwella

Cydraddoldebau Strategol a'r Gymraeg

- Cyflawni camau gweithredu BIAP ar Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol
- Cyflwyno hyfforddiant Ymwybyddiaeth Traws i staff
- Cyflwyno prosiect straeon cleifion